

DEDDFU A CHYFIAWNDER DWYIEITHOG

Adroddiad ar y gwersi i Gymru o brofiad y canlynol o ddwyieithrwydd yng Nghanada-

Mr Ustus Thomas, Uwch Farnwr Llywyddol Cylchdaith Cymru a Chaer;
Ei Anrhydedd y Barnwr Roderick Evans, CF, Cofiadur Caerdydd ;
Winston Roddick CF, Cwnsler Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
Nerys Arch, Uwch Gwnsler y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
Gwyn Griffiths, Uwch Gwnsler y Cynulliadl;
Catrin Huws, Cwnsler y Cynulliad.



Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Office of the Counsel General

Deddfu a Chyfiawnder Dwyieithog

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r ddirprwyaeth yn hynod o ddiolchgar i Uwch Gomisiwn Canada yn Llundain am eu gwahoddiad caredig i gynnal yr ymweliad y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, ac am y gwaith manwl a sicrhodd daith mor ddiddorol ac addysgiadol.

1.2 Diben yr ymweliad oedd galluogi'r rhai sy'n gyfrifol am baratoi deddfwriaeth ddwyieithog ac am ddehongli deddfwriaeth o'r fath yn ogystal â gweinyddu cyfiawnder mewn cyd-destun dwyieithog yn gyffredinol i elwa ar y profiad eang sydd gan Ganada o waith dwyieithog yn y meysydd hynny.

1.3 Yn benodol cafodd y ddirprwyaeth gyfle i weld sut oedd deddfwriaeth yn cael ei pharatoi a chyfiawnder yn cael ei weinyddu yn ddwyieithog gan sefydliadau Ffederal yn Ottawa a sefydliadau taleithiol Ontario yn Ottawa a New Brunswick yn Fredericton a Moncton. Ym mhob un o'r lefelau hyn mae cyfran y siaradwyr Ffrangeg i siaradwyr Saesneg yn debyg i gyfran y siaradwyr Cymraeg i siaradwyr Saesneg yng Nghymru. Fodd bynnag, er bod gan Lywodraeth Ffederal Canada ac Ontario lawer mwy o adnoddau na Chymru, mae New Brunswick yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ar gyfer poblogaeth sy'n llai na phoblogaeth Cymru gydag adnoddau sy'n gymharol debyg i'r rhai sydd ar gael yng Nghymru.

1.4 Yr oedd y ddirprwyaeth yn cynnwys:-

- Mr Ustus Thomas, Uwch Farnwr Llywyddol Cylchdaith Cymru a Chaer ;
- Ei Anrhydedd y Barnwr Roderick Evans, CF, Cofiadur Caerdydd ;
- Winston Roddick CF, Cwnsler Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

- Nerys Arch, Uwch Gwnsler y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Gwyn Griffiths, Uwch Gwnsler y Cynulliad;
- Catrin Huws, Cwnsler y Cynulliad.

1.5 Ymwelwyd â:-

- Llys Uwch Ontario yn Ottawa;
- Llys Ffederal Canada yn Ottawa;
- Swyddfa Gwasanaethau Deddfwriaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ottawa;
- Cwnsler Seneddol Tŷ'r Cyffredin, Ottawa;
- Y Ganolfan Ymchwil i Gyfraith Gyhoeddus ym Mhrifysgol Montreal;
- Yr Adran Gyfiawnder yn Fredericton, New Brunswick;
- Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick yn Fredericton;
- Comisiwn Hawliau Dynol New Brunswick yn Fredericton;
- Llysoedd Taleithiol New Brunswick ym Moncton; a
- Chanolfan Cyfieithu a Therminoleg Farnwrol yng Nghyfadrann y Gyfraith ym Mhrifysgol Moncton

1.6 Yr oedd y canlynol ymhlith y rhai a fu mor garedig â neilltuo eu hamser prin ar gyfer y ddirprwyaeth (yn y drefn yr ymwelwyd â hwy):-

Ei Anrhydedd Mr Ustus A Roy,
Ustus Llys Uwch Ontario,

Mr Chris O'Connor,
Pennaeth yr Uned Wleidyddol, Uwch Gomisiwn
Prydain, Ottawa

Ei Anrhydedd Mr Ustus Allan Lutfy,
Prif Ustus Cysylltiol, Llys Ffederal Canada

Ei Anrhydedd Mr Ustus John D Richard,
Prif Ustus, Llys Ffederal Canada,

Mr Robert C Bergeron,
Uwch Gwnsler Cyffredinol, Yr Uned Ddeddfwriaeth,
Yr Adran Gyfiawnder, Ottawa

Mr Rob Walsh,
Clerc y Gyfraith a Chwnsler Seneddol, Tŷ'r
Cyffredin, Ottawa

Mr Michael Lukinyuck,
Dirprwy Brif Clerc, Tŷ'r Cyffredin, Ottawa

Professeur Daniel Poulin,
Directeur, Université de Montréal, Centre de
recherche en droit public,

Professeur Karim Benyekhlef,
Université de Montréal, Centre de recherche en droit
public,

Ei Anrhydedd Bradley Green CF.,
Twrnai Cyffredinol, Gweinidog Cyfiawnder, y
Gweinidog â Chyfrifoldeb dros Faterion
Aboriginiaidd, Arweinydd Tŷ'r Llywodraeth, New
Brunswick

Mr Roger Joseph Albert Bilodeau,
Dirprwy Weinidog, Yr Adran Gyfiawnder, New
Brunswick

Ms Josée Dubé,
Argraffydd y Frenhines, Yr Adran Gyfiawnder, New
Brunswick

Mr Patrick Malcolmson,
Y Comisiwn Hawliau Dynol, New Brunswick

Ei Anrhydedd Joseph Daigle,
Prif Ustus New Brunswick, Y Llys Apêl,

Ei Anrhydedd David Smith,
Prif Ustus Llys Mainc y Frenhines, New Brunswick,

Professeur Charles Zama,
directeur adjoint, Centre de traduction et de
terminologie juridiques,
École de droit, Université de Moncton.

2. Ymagwedd Ontario, New Brunswick a'r Llywodraeth Ffederal.

2.1 Argaeledd deunyddiau cyfreithiol a ffurflenni yn y ddwy iaith

2.1.1 Cafodd pwysigrwydd argaeledd adnoddau dwyieithog ei bwysleisio gan bawb a roddodd dystiolaeth i'r ddirprwyaeth fel ffactor allweddol mewn cenedl ddwyieithog. Mae deddfwriaeth a llyfrau testun ar gael yn Ffrangeg ac yn Saesneg. Datblygwyd y derminoleg dros gyfnod amser a defnyddiwyd a derbyniwyd y termau a fabwysiadwyd.

2.1.2 Mae llawer iawn o ddeunydd dwyieithog ar gael o ganlyniad i waith y Ganolfan Cyfieithu a Therminoleg Farnwrol yng Nghyfadrannau y Gyfraith ym Mhrifysgol Moncton. Agorodd y Ganolfan ym 1979, flwyddyn wedi i Ysgol y Gyfraith agor ei drysau ym Moncton, a oedd yn cynnig am y tro cyntaf gwrs Ffrangeg mewn cyfraith gyffredin. Bryd hynny yr oedd pob un o'r athrawon yn Ysgol y Gyfraith wedi astudio cyfraith gyffredin trwy gyfrwng y Saesneg p'un a oeddent mewn gwirionedd yn Saesneg neu'n Ffrangeg eu hiaith. Yr oedd y Llyfrgell hefyd yn llyfrgell Saesneg. O ganlyniad penderfynwyd sefydlu Canolfan Gyfieithu.

2.1.3 Dechreuodd y Ganolfan drwy gyfieithu geirfa cyfraith eiddo, a gyhoeddwyd ym 1980. Yna aeth ati i gyfieithu Rheolau Llys ar gyfer New Brunswick.

2.1.4 O ganlyniad i sawl her gyfansoddiadol mewn achosion llys ym Manitoba yn y 1970au bu'n rhaid i'r dalaith ddarparu bob un o'i Deddfau, ei Rheoliadau a'i Rheolau yn Ffrangeg. Cyfieithwyd y rhain gan y Ganolfan. Mae'r Ganolfan hefyd wedi bod yn gyfrifol am gyfieithu ar gyfer Tiriogaethau'r Gogledd-orllewin, Yukon a Saskatchewan. Mae'r rhan fwyaf o'r deddfwriaeth yn y taleithiau hyn yn cael ei drafftio yn Saesneg a'i chyfieithu gan y Ganolfan.

- 2.1.5 Ym 1982, o ganlyniad i benderfyniad llys, bu'n rhaid i New Brunswick ddarparu pob penderfyniad llys a gyhoeddwyd yn y Ffrangeg yn ogystal â'r Saesneg. Cyfieithwyd y rhain gan y Ganolfan. Bu'r Ganolfan hefyd yn gyfrifol am gyfieithu rhai o benderfyniadau'r Llys Ffederal am gyfnod, ond erbyn hyn y Llys ei hun sy'n gyfrifol am eu cyfieithu. Mae'r Ganolfan hefyd yn cyfieithu rhai is-ddeddfau trefol yn ogystal â rhai o gofnodion cyfarfodydd y Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth breifat (e.e. ar gyfer cyrff proffesiynol) yn New Brunswick yn cael ei chyfieithu yn y Ganolfan hefyd.
- 2.1.6 Ystyriwyd hefyd ei bod hi'n bwysig bod y ffurflenni mwyaf cyffredin ar gael yn y ddwy iaith gyda'r ddwy iaith yn ymddangos ar yr un ffurflen yn hytrach nag mewn ffurflenni ar wahân.

2.2 Addysg a hyfforddiant yn y ddwy iaith

- 2.2.1 Yn ogystal â bod yn ddwyieithog, mae gan Ganada system ddwy-gyfraith, h.y. mae'n cynnwys awdurdodaeth cyfraith sifil a chyfraith gyffredin. Yn draddodiadol roedd siaradwyr Ffrangeg yn cael eu hyfforddi mewn cyfraith sifil a siaradwyr Saesneg mewn cyfraith gyffredin.
- 2.2.2 Mae Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Moncton wedi cynnig cyrsiau dwyieithog mewn cyfraith gyffredin ers 1979. Mae'r Ganolfan Gyfieithu yn y Brifysgol yn cynnig cymorth a hyfforddiant mewn cyfieithu cyfreithiol ar gyfer myfyrwyr a barnwyr. Mae'r Ganolfan hefyd yn cyfieithu deunyddiau addysgu, a deunydd gogyfer â chael mynediad i'r Bar. Bu datblygiad addysgu dwyieithog yn ffactor allweddol arall.

2.3 Graddoliaeth: y newid mewn cenhedlaeth yn New Brunswick

- 2.3.1 Datblygodd y system ddwyieithog o ganlyniad i broses raddol. Hyd tua 1968 Saesneg oedd iaith gweinyddu Cyfiawnder a phan gyflwynwyd system ddwyieithog bu

peth gwrthwynebiad ar y dechrau gan rai tuag at yr hyn a oedd yn cael ei ystyried fel gorbwyslais ar y Ffrangeg. Ymateb y byd swyddogol oedd camu'n ôl rywfaint am gyfnod, ac i symud ymlaen yn fwy graddol. Ond, erbyn hyn, mae'r angen i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall a'r manteision a ddaw yn sgil hynny yn cael eu derbyn, ac mae ewyllys gwleidyddol a chymunedol cryfach yn bodoli i sicrhau bod y system yn gweithio.

2.3.2 Wrth ateb y cwestiwn o beth ellid fod wedi'i wneud yn wahanol, dywedwyd wrth y ddirprwyaeth y byddai ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd wedi bod yn fuddiol. Os yw addysg yn arwain at bobl gwbl ddwyieithog, mae llai o angen cyfieithu, a gellir rhoi mwy o flaenoriaeth i waith terminolegol.

2.3.3 Y nod yw sicrhau bod cyfieithu yn gam dros dro, a bod pob deunydd gwreiddiol yn cael ei gynhyrchu yn Ffrangeg yn ogystal â'r Saesneg yn y pen draw. Mae Terminoleg yn parhau i ddatblygu.

2.4 Costau: y sefyllfa yn New Brunswick

2.4.1 Mae'r llywodraeth ffederal a'r llywodraeth daleithiol ill dwy yn cyfrannu tuag at y costau. Ran amlaf y llysoedd sy'n talu am y cyfieithu. Yn wreiddiol, yr oedd y Ganolfan Gyfieithu ym Mhrifysgol Moncton yn cael ei hariannu gan y llywodraeth Ffederal a'r llywodraeth daleithiol. Mae costau cyhoeddi deddfwriaeth yn uchel, ond mae'r defnydd o dechnoleg a chyhoeddi ar y Rhyngrwyd yn unig yn fodd o leihau hyn.

3. Geirfa a datblygu'r iaith: y gwaith sy'n cael ei wneud yng Ngghanada

3.1 Gwaith llunio termau cyfreithiol

3.1.1 Mae gwaith datblygu terminoleg yn dal i fynd rhagddo. Mae'r Ganolfan Gyfieithu ym Mhrifysgol Moncton yn chwarae rôl arweiniol yn y gwaith hwn. Os nad oes term Ffrangeg yn bodoli am ymadrodd Saesneg yn y gyfraith gyffredin, bydd yr ieithwyr yn y Ganolfan yn edrych yn

gyntaf ar gyfraith sifil Ffrainc ac, os yw'n bosibl, yn benthyg term i'w ddefnyddio mewn cyd-destun newydd. Os nad yw hynny'n bosibl, maent yn edrych ar wreiddyn y gair Saesneg ac yn ceisio darganfod term cyfoes priodol. Os nad yw hynny'n bosibl, yna byddant yn creu gair, e.e. ar gyfer "estoppel" defnyddiwyd y gair "préclusion", gan roi ystyr newydd felly i'r gair. Byddant yn mabwysiadu termau sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n gyffredinol hefyd (e.e. "interpleaderie" am "interpleader") ac felly mae terminoleg yn dod yn rhan o'r gyfraith gyffredin wrth ei defnyddio. Nid ydynt o angenrheidrwydd yn defnyddio termau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo mewn unrhyw awdurdodaeth arall drwy gyfrwng y Ffrangeg e.e. y defnydd o "arrêt" yn lle "stop" sy'n fwy cyffredin.

- 3.1.2 Mae'r Ganolfan wedi cynhyrchu "Juridictionnaire", sef geiriadur o'r anawsterau a geir yn y gyfraith gyffredin yn Ffrangeg. Mae'n esbonio sut i ddefnyddio termau, ym mha gyd-destun, pa ragddodiaid y dylid eu defnyddio, etc. Mae hefyd ar gael ar gryno-ddisg - "Juriterm". Y Ganolfan a gynhyrchodd y meddalwedd gwreiddiol ar gyfer y geiriadur. Y nod yw cael geiriadur cyflawn o'r gyfraith gyffredin yn Ffrangeg.

3.2 Cymeradwyo termau cyfreithiol

- 3.2.1 Mae yna gorff cenedlaethol i safoni terminoleg gyfreithiol - "the National Programme for the Administration of Justice – the two official languages". Lleolir y corff yn Ottawa a chaiff ei gyllido gan y Llywodraeth Ffederal. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Gyfiawnder a'r llysoedd, ac mae'r Ganolfan Gyfieithu yn cyfrannu ato hefyd. Mae pwyllgor o'r corff hwnnw yn penderfynu ar derminoleg. Mae gan y pwyllgor bump aelod parhaol, sy'n cynnwys cyfreithwyr, barnwyr, cyfieithwyr ac arbenigydd ieithyddol. Mae'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau y mae tîm wedi'u paratoi ac yn penderfynu ar y termau sydd i'w defnyddio. Unwaith y mae'r termau wedi'u penderfynu, defnyddir hwy mewn deddfwriaeth, achosion a llyfrau testun.

4. Cyfiawnder: Ontario, y Llysoedd Ffederal a New Brunswick

4.1 Strwythur y Llysoedd

4.1.1 Mae pob un o Lysoedd Ffederal Canada'n gwbl ddwyieithog, yn defnyddio Saesneg a Ffrangeg, ill dwy â statws cyfartal.

Y Llys Goruchaf

4.1.2 Y Llys uchaf yn y wlad yw Llys Goruchaf Canada. Hwn yw'r llys apêl cyffredinol i holl lysoedd eraill Canada.

Llys Ffederal Canada

4.1.3 Mae Llys Ffederal Canada wedi'i drefnu'n adrannau apêl a threial, ac er ei fod wedi'i leoli yn Ottawa, mae barnwyr y ddwy adran yn eistedd ledled Canada. Mae'r Llys yn adolygu penderfyniadau byrddau ffederal, comisiynau a thribiwnlysoedd y dadleuir amdanynt. Mae awdurdodaeth y Llys Ffederal hefyd yn cynnwys anghydfodau rhwng y taleithiau a rhwng awdurdodau ffederal a thaleithiol, achosion eiddo deallusol, materion morlys, apelau dinasyddiaeth, ac apelau o dan statudau ffederal penodol. Mae'r Llys Ffederal yn rhannu awdurdodaeth â'r llysoedd taleithiol uwch o ran hawliadau gan y Goron ac yn ei herbyn. Mae llawer o waith y Llys yn cynnwys achosion ar adolygiadau barnwrol. Gwrandewir ar achosion yn Ffrangeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, a threfnir bod ei benderfyniadau ar gael bob amser yn y ddwy iaith.

Y Llysoedd Taleithiol

Mae'r Llysoedd Uwch yn ymdrin ag achosion o bob rhan o'r dalaith ac mae ganddynt awdurdodaeth sylweddol ac ariannol sy'n ddigyfyngiad. Maent yn gwrandeo ar yr achosion troseddol mwyaf difrifol a'r achosion sifil mwyaf. Mae'r Llysoedd Uwch yn ymdrin â 5% yn unig o achosion troseddol, ond gan mai hwy yw'r achosion mwyaf difrifol, maent yn aml yn golygu treialon â

rheithgor. Mae'r llysoedd taleithiol yn cael eu cyfyngu gan y pwnc o dan sylw a gwerth ariannol y cyfreitha a chan y lleoliad daearyddol. Mae'r llysoedd taleithiol yn ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion troseddol, ond nid ydynt yn dreialon â rheithgor. Mae Ynadon Heddwch yn ymdrin â hawliadau sifil bach ac â mân dramgwyddau troseddol.

4.2 Anawsterau cyfieithu yn ystod dadlau cyfreithiol a thystiolaeth: cyfieithu dilynol a chyfieithu ar y pryd.

4.2.1 Mae'n bosibl cael treialon mewn un iaith (Ffrangeg neu Saesneg) neu dreialon dwyieithog. Mewn treial troseddol y diffynnydd sy'n penderfynu iaith y Llys ond mewn achosion sifil mae'n gyffredin cael treialon dwyieithog. Darperir cyfiawnder cyfartal pan ddefnyddir y ddwy iaith ac maent yn goresgyn yr anawsterau sy'n codi mewn treialon uniaith.

4.2.2 Pan fydd cyfieithu'n angenrheidiol, ceir problemau'n aml gyda'r iaith dechnegol a ddefnyddir mewn treialon. Un ffordd o leddfu'r broblem honno yw rhoi'r dogfennau ymlaen llaw i'r cyfieithwyr. Mae yna anawsterau hefyd wrth gyfieithu dadleuon cyfreithiol oherwydd y derminoleg, yr angen i fod yn fanwl-gywir, a'r angen i ddilyn rhesymeg y ddadl. Mae angen i'r cyfieithwyr yn aml dorri ar draws cyfreithwyr wrth iddynt annerch y llys. Yn ddelfrydol, dylai barnwyr fod yn gwbl ddwyieithog mewn achosion pan ddefnyddir y ddwy iaith

Cyfieithu dilynol

4.2.3 Mewn treialon gydag un iaith, caiff tystiolaeth tyst nad yw'n rhoi ei dystiolaeth yn iaith y treial ei chyfieithu i Saesneg neu Ffrangeg ar sail ddilynol, yn yr un modd ag ieithoedd tramor eraill. Y cyfieithwyr sy'n penderfynu ar gyflymder y cyfieithu dilynol.

4.2.4 Dywedwyd mai anfantais y system hon oedd ei harafwch. Mae'n dyblu amser gwrando ar y dystiolaeth y mae'n rhaid ei chyfieithu. Gall bylu grym y croesholi. Er

hynny, y mae'n gywirach am fod yn rhaid i'r cyfieithydd ddilyn pob gair o'r dystiolaeth, a chyfieithu pob gair.

Cyfieithu ar y pryd

- 4.2.5 Dywedwyd mai anfantais cyfieithu ar y pryd oedd y perygl o golli geiriau unigol. Roedd risg hefyd y byddai'r cyfieithydd yn crynhoi'r dystiolaeth, yn hytrach na chyfieithu pob gair. O ran cyfieithu ar y pryd, nid yw'r cyfieithiad yn ffurfio rhan o gofnod y llys. Y fantais fawr yw cyflymder.

4.3 Tribiwnlysoedd dwyieithog; defnyddio'r ddau destun wrth ddehongli deddfwriaeth ddwyieithog

Dethol Rheithwyr

- 4.3.1 Os gwrandewir y treial yn Ffrangeg, yna rhaid i'r barnwr a'r rheithgor allu deall Ffrangeg, heb fod angen cyfieithiad. Caiff panel o reithwyr ei ddewis ar hap gan gyfrifiadur. Yna mae'r Siryf yn anfon gwysion. Gofynnir i reithwyr posibl dicio a ydynt yn siarad Ffrangeg neu beidio, ond gan na ofynnir iddynt roi asesiad o'u gallu, rhaid i'r barnwr archwilio lefel eu medrau iaith pan ddônt ar y panel.

- 4.3.2 Er enghraifft, gall rheithiwr posibl ddweud ei fod yn siarad Ffrangeg, ond mewn gwirionedd efallai nad yw'n deall ond *argot* neu iaith y stryd. Rhoddodd gwahanol farnwyr esboniadau gwahanol ar sut y maent yn gwneud hyn, ond fel arfer maent yn holi'r rheithwyr yn uniongyrchol yn y ddwy iaith. Yr oeddent oll yn gytûn y dylai'r holi hwn ddigwydd ar y dechrau'n deg. Fel arfer mae hyn yn digwydd heb anhawster, ond mae'n bosibl cael panel o hyd at 200 o reithwyr posibl sydd wedi cael eu henwi fel rheithwyr dwyieithog posibl.

Defnyddio'r ddau destun

- 4.3.3 Mae cwestiynau iaith yn codi. Bydd cyfreithwyr yn dadlau bod ystyr y testun mewn un iaith yn wahanol i'r ystyr yn yr iaith arall. Gan hynny, rhaid i'r barnwyr fod

yn ymwybodol o arlliw gwahanol yn y ddwy iaith a rhaid bod ganddynt mewn gwirionedd rywfaint o ddealltwriaeth o'r ddwy iaith. Bydd y barnwyr bob amser yn edrych ar y ddau destun gyda'i gilydd. Mae'r cyfieithwyr yn bresennol yn y treial i gynorthwyo'r partïon, nid i gynorthwyo'r barnwr. Caiff barnwyr dwyieithog eu neilltuo ar gyfer achosion lle rhagwelir y cwestiynau hyn.

4.4 Hyfforddiant ar gyfer cyfieithwyr

4.4.1 Yn y Llys Uwch yn Ottawa, mae cyfieithwyr yn ymuno'n aml â'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd heb unrhyw hyfforddiant blaenorol. Yr oedd gan y Llys garfan o dri chyfieithydd yn unig a oedd yn gwneud y gwaith cyfieithu dilynol a'r gwaith cyfieithu ar y pryd. Nid oeddent yn cael unrhyw hyfforddiant arbenigol.

4.4.2 Yn New Brunswick mae'r cyfieithwyr yn gyffredinol yn meddu ar raddau mewn cyfieithu, er nad yw hyn yn orfodol. Serch hynny, mae gofyn am safonau uchel, ac mae angen cymryd gofal i sicrhau nad yw'r cyfieithwyr yn rhoi geiriau yng nghegau'r tystion.

4.5 Dewis iaith ar gyfer yr achos

Treialon troseddol

4.5.1 Dewis y cyhuddedig yn unig yw'r iaith ar gyfer y treial. Yn ôl adran 530 o'r Cod Troseddol, rhaid cynnig y dewis cyn gynted â phosibl yn yr achos. Mae'r cyhuddedig yn datgan ei iaith ddewisol fel arfer pan fydd yn ymddangos am y tro cyntaf gerbron y Llys. Er hynny, gall newid ei feddwl, ac mae hynny'n digwydd.

4.5.2 Mae ganddo'r hawl i gael ei wrando gan lys sy'n ei ddeall yn yr iaith swyddogol o'i ddewis, heb yr angen am gyfieithu. Rhaid i'r barnwr (a'r rheithgor os oes un) allu deall yr iaith ddewisol felly. Mae'n bosibl bod rhywfaint o betruso neu ofni o hyd ynghylch dewis treialon yn Ffrangeg. Mae Saesneg wedi'i derbyn fel yr iaith swyddogol ers cymaint o amser. Mae'n bosibl cael

dyddiad cynharach hefyd os yw Saesneg yn cael ei dewis.

4.5.3 Nid oes gan dystion, gan gynnwys dioddefwyr, unrhyw hawl i ddylanwadu ar iaith y treial. Er enghraifft, mewn treial yn Ffrangeg, er y gall pedwar tyst fod yn siaradwyr Saesneg a bod un tyst yn unig yn siaradwr Ffrangeg, nid yw presenoldeb y tystion Saesneg yn peri bod treial dwyieithog. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y tystion hynny sy'n rhoi eu tystiolaeth yn Saesneg. Er hynny, hyd yn oed os yw'r eiriolwyr, er enghraifft, yn siarad Ffrangeg a bod y diffynnydd wedi dewis cael treial yn Ffrangeg, mae'r tystion yn dal yn gallu dewis rhoi eu tystiolaeth yn Saesneg.

4.5.4 Mae'r iaith y mae tystiolaeth yn cael ei chyflwyno ynddi yn cael ei thrin fel iaith wreiddiol y dystiolaeth. O'r blaen yr oedd cyfieithiad yn cael ei gynnwys yn lle'r iaith wreiddiol; mae'r arfer hwn bellach wedi dod i ben.

Treialon sifil

4.5.5 Mewn achosion sifil, mae gan bob parti yr hawl i ddewis iaith y treial, felly mae'n rhaid i farnwyr allu defnyddio'r ddwy iaith. Rhaid datgan yr iaith a ddewiswyd mewn cais y mae'n ofynnol ei gyflwyno trwy statud. Mae achosion sifil felly yn fwy o her ac yn fwy dwyieithog mewn gwirionedd gan y gallai'r pleintydd ddewis Ffrangeg a gallai'r diffynnydd ddewis Saesneg. Gall y partiön mewn achosion sifil fynnu bod gwasanaeth cyfieithu ar gael ar gyfer Cwnsler eu dewis. Os yw'r tystion mewn achos sifil yn dymuno defnyddio iaith wahanol i iaith y treial, mae cyfieithydd yn cael ei ddarparu ar gyfer eu tystiolaeth.

4.6 Treialon uniaith a dwyieithog

4.6.1 Mae ystadegau system reoli Llys Ffederal Canada yn dangos mai dim ond rhyw 3% o achosion sy'n cael eu gwrando'n ddwyieithog, a'r mwyafrif llethol o'r rheiny yn cael eu gwrando yn Saesneg, a rhwng 15 ac 20% yn

Ffrangeg. Mae'r Llys Uwch yn Ottawa yn gwranddo rhyw dri achos y flwyddyn yn Ffrangeg neu'n ddwyieithog.

5. Penodiadau barnwrol: nifer digonol o farnwyr a staff dwyieithog ac argaeledd hyfforddiant

Staff dwyieithog

- 5.1 Yn y gwasanaeth cyhoeddus rhaid cynnig ymdrin â phob mater naill ai yn Ffrangeg neu'n Saesneg, ac mae ymdrechion yn cael eu gwneud i recriwtio staff dwyieithog. Mae recriwtio clercod dwyieithog i'r gwasanaeth llysoedd taleithiol yn Ottawa yn anodd gan fod llawer o gystadleuaeth am staff dwyieithog ac mae'r llywodraeth Ffederal yn tueddu i dalu mwy. Pan fydd staff dwyieithog wedi'u recriwtio, yn aml mae yna anawsterau o ran cadw eu medrau Ffrangeg gan fod gwaith y llys yn dal i fod yn Saesneg yn bennaf.

Hyfforddiant

- 5.2 Mae hyfforddiant iaith ar gael i farnwyr a gall hyn fod yn hyfforddiant dwys drwy ymdrwytho yn yr iaith. Mae cyrsiau arbennig yn cael eu trefnu ar gyfer barnwyr Ffrangeg eu hiaith i'w galluogi i ddefnyddio terminoleg cyfraith gyffredin Ffrangeg. Mae'r cyrsiau hyn yn para wythnos bob blwyddyn. Gall barnwyr Saesneg eu hiaith fynychu dau sesiwn dwys o ddeg diwrnod i ddysgu Ffrangeg yn Québec bob blwyddyn, gyda sesiynau hwy ar gyfer y rhai sy'n amlygu dawn arbennig. Maent yn cael eu hannog hefyd i fyw gyda theulu Ffrangeg am hyd at dri mis i ymdrwytho yn yr iaith. Y nod yw gwneud y farnwriaeth yn fwy sensitif i faterion iaith.

Penodiadau

- 5.3 Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Ffederal yn dewis pob un ond y barnwyr ieuaf. Nid oes unrhyw ofyniad ffurfiol o ran iaith ar gyfer penodiadau ond cymerir galluoedd ieithyddol i ystyriaeth wrth ddewis barnwyr am ei bod yn angenrheidiol cael nifer penodol o farnwyr sy'n gallu cynnal treialon dwyieithog neu dreialon yn Ffrangeg. Ar hyn o bryd mae gan Lys Goruchaf Ontario 21 o farnwyr y mae naw ohonynt

yn ddwyieithog. Mae gan y Llys saith o farnwyr ychwanegol hefyd, y mae pedwar ohonynt yn ddwyieithog. Yn ardal Ottawa mae 80% o'r boblogaeth yn siarad Saesneg ac felly bydd y rhan fwyaf o gyfreithwyr a barnwyr yn siarad Saesneg. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa mewn rhai ardaloedd dwyreiniol o Ontario lle mae mwy o'r boblogaeth yn siarad Ffrangeg. Bydd barnwyr yn cael eu neilltuo yn ôl eu gallu ieithyddol. Mae yna rhywfaint o anhawster wrth neilltuo barnwyr ar gyfer achosion teulu.

6. Iaith y dyfarniad

- 6.1 Mae'r barnwyr yn crynhoi mewn treialon dwyieithog yn y ddwy iaith, a hynny bob yn ail, gan grynhoi'r dystiolaeth Ffrangeg yn Ffrangeg a'r dystiolaeth Saesneg yn Saesneg. Mae hynny'n bosibl am fod yr achosion yn cael eu gwranddo gan reithgorau dwyieithog.
- 6.2 Bydd y barnwyr yn rhoi eu dyfarniad, fel arfer yn iaith y treial, neu mewn treial dwyieithog, yn y ddwy iaith. Weithiau bydd y Llys yn talu am gyfieithu dyfarniadau mewn treialon dwyieithog (22 sent y gair) neu mewn treial uniaith os yw'r barnwr yn gofyn bod cyfieithiad i'r iaith arall yn cael ei ddarparu.
- 6.3 Yn y Llys Ffederal, gwneir ymdrech i ryddhau dyfarniadau pwysig yn y ddwy iaith yr un pryd, ond fel arall mae'r dyfarniad yn cael ei gyfieithu yn nes ymlaen. Os yw'r achos yn un pwysig, ac mewn un iaith yn unig, darperir cyfieithiad beth bynnag pan fydd y dyfarniad yn cael ei draddodi.

7. Dyrannu costau cyfieithu

- 7.1 Yn Llys Goruchaf Canada mae popeth yn cael ei gyfieithu. Bydd Llys Ffederal Canada yn darparu cyfieithiad ar y pryd i mewn i'r naill neu'r llall o'r ieithoedd swyddogol neu ohonynt, ond rhaid i'r partïon ddarparu'r cyfieithiad ar gyfer unrhyw ieithoedd eraill. Mae'r Llys Ffederal yn talu am yr offer a'r technegwyr hefyd. Mewn treial byddai cyfieithu ar y pryd yn digwydd yn y fan a'r lle. Yn y Llys Ffederal, nid yw'r cyfieithwyr ar y pryd yn rhan o staff y Llys ond fe'u darperir gan adran arall o'r llywodraeth. Mae'r cyfieithwyr ar y pryd yn gweithio mewn grwpiau o dri. Am eu bod yn dod o

garfan, nid ydynt o angenrheidrwydd yn arbenigwyr mewn cyfieithu cyfreithiol. Os bydd angen bydd y Llys yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd preifat.

- 7.2 Yn y llysoedd taleithiol, mae'r llys yn cyfieithu arddangosion mewn achosion troseddol. O dan Ddeddf Llysoedd Cyfiawnder Ontario, y llys sy'n gyfrifol am gyfieithu a chyfieithu ar y pryd os yw hynny wedi'i amodi. Fel arall y partïon sy'n darparu eu cyfieithiad eu hunain.

8. Hawliau dynol

- 8.1 Mae'r Siarter Hawliau a Rhyddhadau wedi creu llawer o wahanol fathau o geisiadau cyn-treial yn bennaf oherwydd oediadau a chwestiynau ynghylch datgelu. Oedi yw'r mater sy'n cael ei godi fynychaf. Gall dod o hyd i farnwr a rheithgor i wrando treial dwyieithog olygu oedi weithiau. Ar brydiau, mae'n cymryd amser i drefnu dyddiad ar gyfer barnwr sy'n siarad yr iaith gywir (yr ieithoedd cywir). Gall hynny roi sail ar gyfer cwyno o dan y Siarter am ei bod yn ymwneud â'r cwestiwn o gyfle i gael cyfiawnder.

9. Deddfwriaeth: deddfwriaeth Ffederal a deddfwriaeth New Brunswick

- 9.1 Mae Deddf Cyfansoddiad 1867 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Deddf Seneddol Ffederal gael ei hargraffu a'i chyhoeddi yn Saesneg a Ffrangeg. Mae Deddf Ieithoedd Swyddogol 1967 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Deddf o'r fath gael ei deddfu yr un pryd yn Ffrangeg a Saesneg. Mae'r ddwy fersiwn iaith yr un mor awdurdodol, a bydd y Llysoedd yn ystyried y ddwy fersiwn ac yn dehongli a chymhwyso'r ddwy.
- 9.2 Mae New Brunswick wedi bod yn dalaith ddwyieithog ers 1969, felly mae Ffrangeg a Saesneg wedi cael statws cyfartal ers hynny.

10. Drafftio deddfwriaeth

Proffesiynoldeb; canoli; cyfrifiaduro; cyd-ddrafftio; adolygu yw'r geiriau allweddol.

10.1 Cyd-ddrafftio

- 10.1.1 Y Llywodraeth Ffederal. Mae Uned Ddeddfwriaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn cyd-ddrafftio ei Deddfau Seneddol ers 1978. Nid oes unrhyw gyfieithwyr yn yr Uned. Arferai'r Uned gyfieithu ei deddfwriaeth ond codwyd pryderon ynghylch ansawdd y deddfwriaeth a gyfieithwyd. Cafodd ei beirniadu gan Gomisiynydd yr Ieithoedd Swyddogol. Sefydlwyd grŵp astudio felly i ystyried atebion newydd. Dyfeisiodd y grŵp y syniad o gyd-ddrafftio.
- 10.1.2 Pan fydd argymhelliad ar gyfer deddfwriaeth newydd yn cael ei gymeradwyo, mae ffeil yn cael ei neilltuo i ddau drafftiwr. Mae aelodau o'r adran berthnasol, sef cyfreithiwr a swyddog polisi fel arfer, yn cyfarfod â'r drafftwyr i esbonio'r polisi a'r hyn sy'n ofynnol o ran deddfwriaeth. Mae'n bwysig iawn bod gan y drafftwyr syniad clir ynghylch beth sy'n ofynnol.
- 10.1.3 Mae yna ddau drafftiwr felly ar gyfer pob darn o ddeddfwriaeth – un Ffrangeg ei iaith ac un Saesneg ei iaith. Mae'r ddau yn ddwyieithog. Maent yn bartneriaid cyfartal. Mae'r ddau yn mynychu pob cyfarfod ac yn gwybod holl gefndir y Mesur. Serch hynny mae yna drafftiwr arweiniol ac ail drafftiwr. Y drafftiwr arweiniol yn unig fydd yn mynychu cyfarfod os nad yw'r ail drafftiwr yn gallu gwneud hynny.
- 10.1.4 Mae pob swyddog cyfarwyddo yn ddwyieithog hefyd, neu o leiaf mae yna rywun sy'n ddwyieithog yn y tîm.
- 10.1.5 Mae pawb sy'n ymwneud â'r drafftio (h.y. cyfreithwyr a'r adran sy'n cyfarwyddo) yn gweithio ar un ddogfen. Bydd strwythur y Mesur yn cael ei drefnu gan y ddau drafftiwr, ynghyd â'r adran bolisi.
- 10.1.6 Mae'r fersiynau yn y ddwy iaith yn defnyddio'r un adrannau ac is-adrannau. Nid yw'r drafftwyr yn rhifo'r cymalau wrth iddynt ddrafftio gan fod hynny'n golygu ei bod yn haws i newid y dilyniant.
- 10.1.7 Mae yna arbenigydd yn yr Uned ar broblemau dwyieithog.

10.1.8 New Brunswick. Mae'r Adran Gwasanaethau Deddfwriaethol wedi bod yn cyd-ddrafftio ers y 1980au. Mae'r proses yn cynnwys pum rhan:

- Deall a dadansoddi. Mae cynnig yn cael ei gyflwyno yn Saesneg gan yr adran berthnasol, ac mae'r cyfreithwyr drafftio yn mynychu cyfarfodydd gyda'r adran i sicrhau ei bod ill dau yn deall y bwriad yn llawn. Fel arfer mae'r cyfarfodydd hyn yn Saesneg.
- Y drafft cyntaf. Mae'r drafftiwr arweiniol yn paratoi drafft cyntaf ac yn ei rannu â'r cyfreithiwr arall sy'n cyflwyno sylwadau arno ac yn paratoi drafft yn yr iaith arall. Mae pob cyfreithiwr felly'n gweithio ar ddogfen unigol ond mae cryn dipyn o gyfathrebu parhaus rhwng y naill gyfreithiwr a'r llall drwy gydol y broses.
- Mae'r fersiynau Saesneg a Ffrangeg yn cael eu hanfon at yr adran sy'n cyfarwyddo.
- Mae'r drafft yn cael ei anfon yn ôl ac ymlaen rhwng yr adran a'r cyfreithwyr sy'n drafftio ar gyfer diwygiadau.
- Mae'r drafftiau yn cael eu golygu a'u cyhoeddi wedyn.

10.1.9 Ym marn y drafftwyr yn Ottawa a New Brunswick yr oedd y cyd-ddrafftio yn creu deddfwriaeth well yn y ddwy iaith. Pan oedd y ddeddfwriaeth yn cael ei drafftio yn Saesneg ac yna'n cael ei chyfieithu i'r Ffrangeg yr oedd llawer o feirniadu ar ansawdd y ddeddfwriaeth Ffrangeg. Mae'r broses ddrafftio yn sicrhau bod yr un faint o ofal a chysondeb yn y ddwy iaith. Nid oes modd dweud bod y naill fersiwn yn waeth na'r llall. Dylai'r ddwy fersiwn weithredu'r polisi yn iawn, a dylai eu heffaith cyfreithiol fod yr un fath. Mae yna ddwy fersiwn wreiddiol, ac nid yw'r naill yn gyfieithiad o'r llall. Mae'r ffaith ei bod yn cymryd ychydig yn hwy i wneud y drafftio go iawn yn cael ei gwrthbwysu gan yr arbedion o ran amser sy'n cael eu gwneud yn y broses gyfan.

10.1.10 Mae'r ddau ddrafftiwr yn cymryd rhan gyfartal. Maent yn darllen drafftiau ei gilydd yn gyson. Gan fod dau

gyfreithiwr yn gweithio ar bob darn o ddeddfwriaeth, maent yn fwy tebygol o sylwi ar fylchau a phroblemau, a darganfod sut i'w datrys. Maent yn mabwysiadu'r ateb mwyaf priodol i'r drafft yn y ddwy iaith. Os yw'r drafft yn uniaith ac yna'n cael ei gyfieithu, mae problemau yn llai tebygol o gael eu gweld.

10.1.11 Ystyriwyd felly bod y system gyd-ddrafftio yn well na chyfieithu ac yn well hefyd na bod un person yn drafftio yn Saesneg ac yn Ffrangeg. Os byddai hynny'n cael ei wneud, ni fyddai neb yn gwirio'r gwaith, ac ni fyddai un o'r drafftiau ym mamiaith y drafftiwr hwnnw.

10.2 Timau a drafftio canolog

10.2.1 Mae drafftio statudau Ffederal yn cael ei wneud yn ganolog gan gyfreithwyr drafftio mewn adran ganolog, sef yr Uned Ddeddfwriaeth sy'n drafftio pob deddfwriaeth y llywodraeth.

10.2.2 Mae'r Uned yn cynnwys 28 o gyfreithwyr ac yn gwasanaethu pob adran. Nid yw'r drafftwyr yn ceisio arbenigo mewn unrhyw bwnc penodol, er bod gan rai fwy o brofiad nag eraill mewn pynciau penodol. Mae yna chwech o adolygwyr hefyd yn Is-adran y Cwnsleriaid Treth sy'n gweithio ar faterion ariannol.

10.2.3 Mae dau ddrafftiwr yn gweithio ar bob Mesur ond nid ydynt yn gweithio mewn parau sefydlog. Mae nifer y cyfreithwyr Ffrangeg a Saesneg fwy neu lai yn gyfartal yn yr Is-adran.

10.2.4 Mae pob un o'r drafftwyr yn yr adran wedi dilyn y cwrs drafftio yn Ottawa. Mae'n cymryd 5-06 mlynedd i hyfforddi ar ôl iddynt ddechrau yn yr adran.

10.2.5 Nid oes ganddynt unrhyw ysgrifenyddesau ond maent yn mewnbynnu eu data eu hunain. Dim ond un person yn yr Is-adran sy'n staff cynnal, a'r person hwnnw sy'n gyfrifol am ddogfennau'r Cabinet.

10.2.6 Mae ganddynt gyfarwyddiadau desg, cynseiliau, etc. Mae ganddynt gyfarfodydd staff bob wythnos. Mae'r Cwnsler Deddfwriaethol Cyntaf yn cynhyrchu Nodiadau i Ddrafftwyr gyda chyingor neu bwyntiau i'w nodi. Mae yna Bwyllgor

Desglyfr o fewn yr Is-adran sy'n paratoi nodiadau ar bynciau amrywiol megis "Byrddau" neu "Dribiwnlysoedd". Yn y pen draw mae'r nodiadau hyn a'r Nodiadau i Ddrafftwyd yn cael eu hymgorffori yn y Desglyfr.

10.2.7 Maent yn defnyddio dulliau eraill megis rhestr gyfeirio ar hawliau dynol a llawlyfr erlynydd.

Rheoliadau

10.2.8 Yr hyn y byddwn ni ei ddisgrifio fel is-ddeddfwriaeth yw "Rheoliadau". Mae'r sefyllfa o ran rheoliadau drafftio ychydig yn wahanol. Mae'r Uned Reoliadau o dan y Cwnsler Deddfwriaethol Cyntaf hefyd. Mae rhyw 100 o gyfreithwyr yn drafftio rheoliadau, a rhyw 70/30 yw'r gymhareb rhwng cyfreithwyr Saesneg a chyfreithwyr Ffrangeg. Mae rhai yn gweithio mewn is-unedau ac yn gweithio'n agos â'r adrannau sy'n cyfarwyddo.

10.2.9 Mae'r adrannau sy'n cyfarwyddo yn drafftio eu rheoliadau eu hunain fel arfer, a dyna yw'r sefyllfa yn Iwerddon hefyd, ac wedyn mae'r Uned Reoliadau yn gwirio'r drafft i sicrhau cydymffurfedd â'r statud alluogi. Yn gyffredinol mae'r gwaith yn dechnegol iawn.

10.2.10 Mae rheoliadau yn amrywio yn y dull y cânt eu drafftio, Mae rhai yn cael eu cyd-ddrafftio ac mae eraill yn cael eu cyfieithu. Oherwydd eu bod yn dechnegol iawn, efallai na fydd arbenigwyr technegol dwyieithog ar gael o hyd i hyfforddi. Caiff nifer helaeth o reoliadau eu drafftio bob blwyddyn, a thua 40-45 o statudau.

10.2.11 Pan fydd yr Uned Reoliadau wedi cymeradwyo'r rheoliadau maent yn cael eu hanfon at Gyfrin Gyngor Canada ac yn cael eu gwneud. Wedyn cyflwynir hwy i Gyd-bwyllgor y Tŷ a'r Senedd sy'n gwirio'r rheoliadau a'r statud alluogi, a gallant wysio swyddogion i ymddangos gerbron y Pwyllgor. Mae'r pŵer ganddynt i ddiddymu rheoliadau ac er mai ychydig o weithiau y gwnaed hyn, mae'n fygythiad effeithiol iawn. Gan hynny, mae llawer o graffu ar y rheoliadau.

10.2.12 Yn New Brunswick, mae cangen y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynnwys saith tîm drafftio, a phob tîm yn cynnwys cyfreithiwr Saesneg a Ffrangeg, a bydd y ddau ohonynt hefyd yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog. Maent yn drafftio'r holl Ddeddfau a Rheoliadau cyhoeddus, mae pob un ohonynt yn ddwyieithog.

10.2.13 Mae pob tîm yn gweithio'n neilltuol i adrannau penodol onid oes angen iddynt helpu'r timau eraill. Mae pob tîm yn gyfrifol am waith drafftio dwy neu dair adran.

10.3 Argaeledd cyfreithwyr dwyieithog

10.3.1 Yn New Brunswick, mae'r system bresennol wedi esblygu dros ddeng mlynedd ar hugain bron. Roedd yn rhaid cyfieithu deddfwriaeth cyn 1973 o Saesneg i Ffrangeg, ac felly datblygu'n araf gorff o gyfraith ddwyieithog. Ugain mlynedd yn ôl roedd cyfreithwyr fel arfer naill ai'n gyfreithwyr Saesneg a chyfraith gyffredin neu Ffrangeg a chyfraith sifil. Mae New Brunswick o fewn awdurdodaeth cyfraith cyffredin. Yna cychwynnodd ysgol gyfraith Moncton gwrs mewn cyfraith cyffredin yn Ffrangeg ac felly o 1982 ymlaen roedd cyfreithwyr cyfraith cyffredin Ffrangeg. Felly erbyn hyn mae cyfreithwyr cyfraith cyffredin Ffrangeg wedi'u hyfforddi sy'n gallu drafftio, ymddangos yn y llys a gweithredu fel barnwyr.

10.3.2 Darperir hyfforddiant iaith hefyd i'r drafftwyr gan yr adran.

10.4 Cynhyrchu testunau ochr yn ochr

Golygyddion a ieithwyr cyfraith

10.4.1 Gan fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Ottawa ac yn Nhalaith New Brunswick yn cyd-ddrafftio, nid ydynt yn defnyddio cyfieithwyr, ond caiff pob Deddf a Rheoliad eu gwirio ar gyfer cywirdeb a chysondeb iaith gan dimoedd o olygyddion a ieithwyr cyfraith.

10.4.2 Mae gan gangen Gwasanaethau Cyfreithiol Ottawa dîm o olygyddion a ieithwyr cyfraith. Mae yna chwe golygydd

Ffrangeg a Saesneg sy'n gwirio'r fersiynau a materion technegol, etc. Mae'r ieithwyr cyfraith yn arbenigwyr mewn iaith, a heb eu hyfforddi'n gyfreithiol. Mae tri ieithydd cyfraith Saesneg a thri ieithydd cyfraith Ffrangeg sy'n rhoi cymorth technegol. Maent yn cymharu'r fersiynau ac yn awgrymu gwelliannau. Ceir gwasanaethau awtomateiddio hefyd.

10.4.3 Yn New Brunswick mae'r golygyddion yn gwirio'r drafftiau o ran cyfeiriadau, anghysondebau a fformadu. Mae dau olygydd yn yr Adran, un yn Saesneg a'r llall yn Ffrangeg. Nid ydynt yn gyfreithwyr ond yn raddedigion iaith. Yna dychwelir y drafftiau i'r cyfreithwyr i'w cymeradwyo'n derfynol, ac wedyn anfonir hwy i gael eu cyhoeddi. Caiff y profleuni eu gwirio gan y golygyddion.

10.5 Technoleg

10.5.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Ottawa yn gwneud defnydd helaeth o gymorth TG. Mae'r uned ar rwydwaith gwahanol, felly gallant anfon dogfennau cyfrinachol at ei gilydd. Mae cyfrinachedd cyfarwyddiadau, memoranda a Mesurau drafft o bwys mawr. Mae dau gyfrifiadur ym mhob ystafell, ond nid yw'r drafftwyr yn rhannu ystafelloedd. Ers deng mlynedd mae ganddynt gyfrifiaduron dwy sgrîn. Mae gan bob drafftiwr ei gyfeiriadur ei hun ac mae un cyfeiriadur cyffredin hefyd ar gyfer rhannu dogfennau.

10.5.2 Maent yn defnyddio WP 5.1. Maent yn dal i'w ddefnyddio am eu bod wedi comisiynu gymaint o newidiadau i'r meddalwedd y mae wedi'i deilwra'n arbennig ar eu cyfer. Mae'r rhaglen yn caniatáu iddynt ail-rifo cymalau mewn Mesurau a'r holl groesgyfeiriadau yn awtomatig. Mae angen i'r holl ddrafftwyr ddefnyddio'r un arddull ac mae hon wedi'i safoni i'w gwneud yn haws i adolygu.

10.5.3 Mae tîm arbennig cyfrifiadurol sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar raglen iaith newydd. Mae gan Wladwriaeth Tasmania fodel da iawn. Maent yn datblygu macro ar gyfer y cyfrifiadur a fydd yn cymharu fersiynau ac yn gwirio mai'r un rhai ydynt, e.e. bod penawdau'r ddwy fersiwn yn yr un lle.

10.5.4 Yn New Brunswick, wrth ddatblygu rhaglenni newydd, pwysleisiwyd ei bod yn dra phwysig i weithio'n agos iawn gyda'r tîm TG, h.y. eistedd nesaf atynt wrth weithio bob dydd.

11. Cynhyrchu deddfwriaeth wedi'i chydgrynhai; trefnu a chategoreiddio

Cyhoeddi

- 11.1 Yn Ottawa mae'r holl ddeddfwriaeth ar gael ar y Rhynggrwyd, ac maent hefyd yn cynhyrchu CD-ROM o'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chydgrynhai.
- 11.2 Yn New Brunswick, caiff deddfwriaeth ei chyhoeddi'n fewnol drwy gyfrwng cyhoeddi bwrdd-gyhoeddi (Framemaker). Anfonir y ddau ddrafft ar wahân i'w cyhoeddi a rhoddir hwynt ar dempled. Caiff rhifau'r penodau eu haseinio drwy'r enw Saesneg.
- 11.3 Cyhoeddir pob eitem ddeddfwriaeth ar ffurf pamffled. Maent hefyd yn cynhyrchu cyfrolau dalennau-rhydd yn cynnwys deddfwriaeth wedi'i chydgrynhai. Caiff hon ei diweddarau bob rhyw dri mis, a thrwy hyn sicrhau bod hawl gan bob dinesydd i weld cyfreithiau wedi'u diweddarau.
- 11.4 Cyhoeddir deddfwriaeth hefyd ar y Rhynggrwyd yn Word ar ei ffurf wedi'i chydgrynhai, ac yn ddwyieithog, ond nid ochr yn ochr.
- 11.5 Pan gaiff Deddf diwygio ei phasio enwir hi, er enghraifft, "The 1990 Education Act to Amend the 1986 Education Act". O fewn cyfnod byr caiff ei chydgrynhai, a bydd Deddf 1990 yn diflannu wedyn.
- 11.6 Cyhoeddir rheoliadau yn y *Royal Gazette*. Cyhoeddir hwy hefyd ar ffurf wedi'i chydgrynhai ar y Rhynggrwyd. Yn ogystal â'r dau olygydd y cyfeirir atynt uchod mae golygydd i'r *Law Gazette* hefyd.

12. Cymorth i aelodau o'r ddeddfwrfa ar drafftio

- 12.1 Mae Swyddfa gwasanaethau Cyfreithiol yn Ottawa yn darparu gwasanaethau'r Cwnsler Deddfwriaethol sy'n drafftio Mesurau Aelodau Preifat a diwygiadau i Fesurau'r Llywodraeth. Mae gan y Swyddfa hefyd uned gyhoeddiadau Seneddol sy'n golygu ac yn cyhoeddi'r holl Fesurau, gan gynnwys Mesurau'r Llywodraeth, ac yn cyfieithu hefyd. Mae'r Wrthblaid yn aml yn rhoi llawer o ddiwygiadau a rhaid i'r Swyddfa eu drafftio i gyd. Mae llawer iawn o gynigion heb fod yn rhai sylweddol, ac mae'r Clercod Deddfwriaethol yn y Swyddfa yn drafftio rheolau i'r Llefarydd a yw'r cynigion yn dderbyniol yn ôl y weithdrefn, o fewn y Mesur neu'n cydymffurfio â'r darpariaethau eraill.
- 12.2 Yn New Brunswick caiff cynigion yr wrthblaid ac unrhyw ddiwygiadau eu drafftio gan gyrff preifat allanol ond fel arfer cânt eu gwirio gan olygyddion yn yr Adran. Er hynny, mae'r Adran yn drafftio cynigion i ddiwygio (diwygiadau o'r llawr), sydd fel arfer yn fyr, os yw'r Llywodraeth yn dymuno eu mabwysiadu.

13. Y Cyfansoddiad / Hawliau Dynol

- 13.1 Yn Ottawa rhaid i'r Uned Ddeddfwriaeth ystyried sut y mae'r ddeddfwriaeth yn cymathu â'r Cyfansoddiad ac a yw'n cydymffurfio â'r Siarter. Rhaid i'r drafftiwr lofnodi datganiad bod y Mesur o fewn y Siarter.
- 13.2 Gofynnir yn aml am farn Uned y Gyfraith Hawliau Dynol. Os bernir bod yna berygl y bydd her, cyfeirir y mater wedyn yn ôl i'r adran bolisi er mwyn iddynt ailystyried y polisi. Os na wneir unrhyw newidiadau cyfeirir y mater i fyny, nes iddo yn y pen draw fynd i'r Gweinidog Cyfiawnder i gael penderfyniad.
- 13.3 Mae Uned y Gyfraith Hawliau Dynol yn adolygu memoranda fel y maent yn mynd drwy'r system, ac felly cyn iddynt gyrraedd y drafftwyr. Er hynny, mae materion newydd yn codi'n aml yn ystod y drafftio.
- 13.4 Nid yw'r cyfreithwyr drafftio yn arbenigwyr ond maent yn effro i faterion hawliau dynol, e.e. wrth ystyried cosbau.

Maent yn galw ar yr arbenigwyr o Uned y Gyfraith Hawliau Dynol, Uned y Gyfraith Gyfansoddiadol neu'r Uned Polisi Troseddol, etc. Maent hefyd yn gorfod gwirio bod y Mesurau yn cydymffurfio â Deddfau cyffredinol eraill, Deddfau leithoedd Swyddogol, a deddfau rhyngwladol.

- 13.5 Mae hawl gan y llysoedd i ddileu deddfwriaeth sy'n anghydnaws â'r Siarter, ac maent yn gwneud hynny weithiau.
- 13.6 Mae argaeledd deddfwriaeth hefyd yn fater hawliau dynol. Dylai'r cyhoedd allu cael cyfle i weld deddfwriaeth yn hawdd ar ei ffurf ddiweddaraf, a dylent allu ei deall yn hawdd. Caiff deddfwriaeth felly ei chydgrynhoi, ei chyhoeddi ar y Rhynggrwyd a'i drafftio mor eglur â phosibl.

14. Cymru

14.1 Y Cyd-destun

Polisi a gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg a Deddf Llywodraeth Cymru.

- 14.1.1 Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r un egwyddor yn gymwys i'r llysoedd.
- 14.1.2 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes y Cynulliad (adran 47). Mae'r rheolau sefydlog i fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae is-deddfwriaeth i gael ei drafftio yn Gymraeg ac yn Saesneg (oni fydd yn amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol) (adran 66). Mae adran 122 yn darparu bod y testunau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.

14.2 Amlinelliad o'r sefyllfa bresennol.

Caiff deddfwriaeth y Cynulliad ei drafftio gan gyfreithiwr yn gweithio ar ei ben ei hun, yn Saesneg ac wedyn mae'n cael ei chyfieithu i'r Gymraeg. Yna caiff ei gwirio gan gyfreithiwr dwyieithog.

Caiff deddfwriaeth ei chyhoeddi ar ffurf papur ac ar y Rhyngryd ond nid yw wedi'i chydgrynhoi. Mae gofynion cyhoeddi yn statudol.

Ni ddarperir hyfforddiant penodol ar ddrafftio nac ar iaith.

Mae Pwyllgor Sefydlog ar yr Iaith Gymraeg wrthi'n cynhyrchu polisi unffurf i fwrw ymlaen â gweithredu'r egwyddorion yn Neddf yr Iaith Gymraeg yn y Llysoedd ac yn y Tribiwnlysoedd yng Nghymru. Er bod treialon sifil a gwrandawiadau gerbron Ynadon yn cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ni chynhelir unrhyw dreialon yn Llys y Goron heblaw yn Saesneg; rhaid cyfieithu'r Gymraeg.

15. Rhestr o argymhellion

Materion i'w gweithredu ar unwaith

15.1. Cynnal a datblygu'r cysylltiadau â Chanada

15.1.1 Y brif wers a ddysgwyd gan Ganada oedd bod drafftio dwyieithog llwyddiannus yn bosibl. Mae'r awdurdodaethau yng Nghanada wedi cymryd dros ugain mlynedd i lwyddo i gael y modelau awelodd y ddirprwyaeth wrth ddysgu o'u profiad hwy gall Cymru obeithio cyflymu'r broses honno. Mae ganddynt lawer i'n haddysgu ar gyd-ddrafftio, defnyddio technoleg gwybodaeth, cyhoeddi, templedau dwyieithog ac yn y blaen.

15.1.2 Mae angen i'r ddirprwyaeth yn awr allu troswi'r hyn a welwyd yn arferion gwaith ar gyfer Cymru. Gwnaed rhaid cysylltiadau pwysig a bydd y rhain yn parhau drwy gyfathrebu anffurfiol megis e-bost. Er hynny dylid sefydlu'r cysylltiad yn fwy ffurfiol. Awgrymwyd y dylai Robert Bergeron, Cwnsler Cyffredinol Hŷn o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Ottawa neu aelod o'i staff, ddod i'r Cynulliad ar secondiad, am ryw chwe mis. Dylid archwilio'r posibilrwydd o secondiad a'i gyllido. Roedd ymweliad byr Robert Bergeron â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn Ionawr 2001 i asesu sut y gallai ef a'i gydweithwyr gynorthwyo'r Cynulliad yn fan cychwyn adeiladol iawn. Yn ystod yr

wythnos honno, anerchodd Robert Bergeron seminar yr Arglwydd Morris o Forth-y-gest ar brofiad Canada o ddrafftio deddfwriaeth.

15.2 Cymdeithasau

Crybwyllwyd dwy gymdeithas ddrafftio fel rhai pwysig i ymuno â hwy, unwaith eto i helpu i fagu a chynnal cysylltiadau â drafftwyr mewn awdurdodaethau eraill, y gellir dysgu llawer oddi wrthynt. Cymdeithas y Gymanwlad a'r Gymdeithas Ewropeaidd oedd y ddwy. Wrth gwrs mae'n rhydd i unrhyw gyfreithiwr ymuno ag un o'r cymdeithasau fel y gwêl yn dda, ond er mwyn achub y fantais fwyaf dros Gymru, dylid cael aelodau o'r ddwy ymysg y cyfreithwyr yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

15.3 Cynadleddau

Awgrymir y gellid trefnu cynhadledd i gyfreithwyr y Gymanwlad yng Nghymru. Byddai ddrafftwyr a barnwyr yn elwa ar gyfle o'r fath, er y byddai angen strwythuro'r gynhadledd yn briodol.

15.4 Cyd-ddrafftio deddfwriaeth y Cynulliad (a chyfarwyddiadau ynghylch arferion)

15.4.1 Y model delfrydol yw'r un yn Ottawa lle mae pob drafftiwr yn ddwyieithog a lle mae'r holl gyfarwyddiadau yn ddwyieithog hefyd, a lle mae'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio yn soffistigedig. Mewn gwirionedd mae'n debyg bod patrwm New Brunswick yn un sy'n llawer mwy cyraeddadwy, o ran maint ac adnoddau. Mae profiad New Brunswick yn dangos y gellir sicrhau system gyd-ddrafftio mewn talaith fach gydag ychydig o adnoddau. Barnwyd bod y system hon yn well na chyfieithu, gan fod mwy o sylw yn cael ei roi i egwyddorion cyfartaledd ieithoedd, a hynny'n arwain at ddwy fersiwn ddilys. Yn Ottawa yr oedd yr holl gyfarwyddiadau a chyfarfodydd yn ddwyieithog, tra'r oedd cyfarwyddiadau a chyfarfodydd yn New Brunswick yn Saesneg fel arfer, ac mae'n debyg mai dyna fydd y sefyllfa yn y Cynulliad yn ystod y dyfodol agos. Yr oedd llai o gyfreithwyr dwyieithog a chyfreithwyr Ffrangeg eu hiaith yn New Brunswick na'r hyn yr oedd yr Adran yn barnu ei bod

yn ddelfrydol, ac eto mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Cynulliad yn fwy na'r sefyllfa yn Ottawa lle'r oedd pob drafftiwr yn ddwyieithog a lle'r oedd yna nifer cyfartal o gyfreithwyr Ffrangeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith.

15.4.2 Mae problemau diffyg terminoleg gyfreithiol safonedig yn yr iaith leiafrifol yn gyffredin i Gymru a Chanada. Nid oes yna unrhyw draddodiad o gyfraith gyffredin Ffrangeg, ac felly nid oedd unrhyw dermau cyfraith cyffredin yn bodoli yn Ffrangeg. Mae'r derminoleg wedi'i datblygu dros yr ugain mlynedd diwethaf ac mae'n cael ei defnyddio bellach. Yn yr un modd ni fu unrhyw ddeddfu yn Gymraeg dros gyfnod o bum canrif a mwy, ac felly yn hanesyddol nid oes unrhyw dermau Cymraeg wedi bod sy'n cyfateb i lawer iawn o ymadroddion cyfreithiol.

15.4.3 Argymhellir y dylid cychwyn ar gyd-drafftio deddfwriaeth y Cynulliad, a bod hyn yn cael ei wneud ar y dechrau drwy gyfrwng prosiectau peilot, gan gyd-ddrafftio dau neu dri offeryn. Yn ddelfrydol dylai'r eitemau deddfwriaeth cyntaf i gael eu cyd-ddrafftio fod yn darnau drafftio gwreiddiol, h.y. nid offerynnau diwygio na'r rhai lle'r ydym yn dilyn polisi Whitehall yn agos iawn. Ni ddylent fod yn rhy dechnegol. Ym mhob tîm sy'n cael ei ddewis fel peilotiaid, dylai dau ddrafftiwr gael eu penodi i weithio ar y ddeddfwriaeth, drafftiwr cyntaf ac ail ddrafftiwr, fel bod gan un ohonynt y prif gyfrifoldeb dros gyfathrebu â'r adran bolisi, ond dylai'r ddau fynychu pob cyfarfod, a dylent gydweithredu'n agos iawn â'i gilydd. Dylent drafod pob cyfarwyddyd a thrafod strwythur yr offeryn gyda'i gilydd. Yn ddelfrydol dylent allu darllen drafftiau ei gilydd, ond y gwir amdani yw bod y naill ddrafftiwr yn debyg o allu gweithio yn Saesneg yn unig ond bod y llall yn ddwyieithog. Ar ôl i'r drafftio gael ei gwblhau dylai'r ddau ddrafft gael eu gwirio i sicrhau cywirdeb iaith a chysondeb a bydd y cyfieithwyr yn gweithredu fel golygwyr.

15.4 Desglyfr

Dylid cychwyn drwy lunio desglyfr cyngor i ddrafftwyr. Ar y dechrau dylai hwn gynnwys pwyntiau o'r Pwyllgor Deddfau, ac unrhyw gyngor neu wybodaeth sydd wedi'i rhannu ymhlith y cyfreithwyr hyd at y dyddiad hwnnw. Y nod fyddai i'r Desglyfr fod yn gymorth i sicrhau arddull mewnol gyson

ac effeithiol. Gallai fod o gymorth i gael pwyllgor desglyfr i grynhoi'r pwyntiau a'r cyngor a sydd wedi dod i law hyd yn hyn, a hefyd, maes o law, i weithio (ar y cyd â chydweithwyr eraill) ar eitemau eraill i'w rhoi yn y Desglyfr.

15.5 Hyfforddiant

15.5.1 Mae angen meithrin cysylltiadau â Cholegau Prifysgol Cymru i esbonio'r anghenion sy'n bodoli a'r rhai y rhagwelir y byddant yn codi o ran cyfreithwyr sy'n gallu gweithio'n effeithiol yn y ddwy iaith. Mae rhywfaint o waith eisoes wedi'i wneud ar hyn gan aelodau o'r ddirprwyaeth ers iddynt dychwelyd o Ganada. Mae Cwnsler Cyffredinol Cymru wedi codi'r materion hyn gyda Chanolfan Materion Cyfreithiol Cymru yn Aberystwyth ac mae Coleg Prifysgol Cymru, Caerdydd, yn rhedeg cwrs ar Eiriolaeth yn y Gymraeg fel rhan o'i gwrs hyfforddi proffesiynol i ôl-raddedigion. Mae gan Brifysgol Cymru, ac ysgol y gyfraith, a'r adrannau Cymraeg yn benodol ran hanfodol i'w chwarae yn hyn o beth.

15.5.2 Dylid gofyn i'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, Adran yr Arglwydd Ganghellor a Phrifysgol Cymru ystyried hyfforddiant i farnwyr y gellid gofyn iddynt wrando achosion yn Gymraeg a darparu hyfforddiant iaith i farnwyr sy'n debyg i'r hyn sydd ar gael yng Nghanada. Mae yna gefnogaeth gadarn ymhlith aelodau o'r farnwriaeth yng Nghymru i'r hyfforddiant hwn.

15.6 Penodiadau

Dylid nodi swyddi barnwrol, lled-farnwrol a swyddi ynadol yng Nghymru y mae'r gallu i gynnal achosion yn y Gymraeg yn hanfodol a dylid gofyn i Adran yr Arglwydd Ganghellor gytuno ar feini prawf ar gyfer hysbysebu'r swyddi, rhoi cyfweiliad i ymgeiswyr a gweithdrefnau priodol ar gyfer penodi. Yn dilyn yr ymweliad â Chanada mae aelodau o'r ddirprwyaeth wedi codi'r materion hyn gyda'r Pwyllgor Sefydlog ar yr iaith Gymraeg ac mae trafodaethau wedi'u cychwyn gydag Adran yr Arglwydd Ganghellor.

Y tymor canolig

15.7 Cynhyrchu deddfwriaeth sydd wedi'i chydgrynhoi

- 15.7.1 Mae'r cwestiwn o gynhyrchu deddfwriaeth sydd wedi'i chydgrynhoi yn gysylltiedig â materion hygrychedd y gyfraith. Dylai'r gyfraith fod yn hawdd i fynd ati, ar ei ffurf wedi'i chydgrynhoi, ac yn hawdd i'w darllen.
- 15.7.2 O ran cyhoeddi deddfwriaeth, y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cwblhau sefydlu'r Uned Rheoli Deddfwriaeth. Pan fydd honno wedi'i sefydlu, dylai fod yn bosibl edrych ar y posibilrwydd o gydgrynhoi deddfwriaeth y Cynulliad.
- 15.7.3 Byddai'r gwaith gwirioneddol o gydgrynhoi yn dasg olygyddol yn hytrach nag un cyfreithiol i raddau helaeth , ond yn ôl pob tebyg byddai'n gofyn am dîm neilltuedig. Byddai angen cymryd gofal i fodloni aelodau o'r Cynulliad na fyddai'r cydgrynhoi yn gwneud mwy nag ailddeddfu'r darpariaethau presennol neu fel arall byddai'n gofyn am yr archwiliad llawn y mae darpariaethau newydd yn ei gael.
- 15.7.4 Mae angen edrych ar sefydlu system a fyddai'n caniatáu i unrhyw aelod o'r cyhoedd gael gafael ar y gyfraith diweddaraf, fel y'i diwygiwyd, ond a fyddai hefyd yn caniatáu iddynt allu darganfod y sefyllfa gyfreithiol a oedd yn bodoli ar unrhyw bryd. Mae yna rwymedigaethau statudol o ran cyhoeddi ond dim ond ar y Rhynggrwyd y gallai'r gwaith cydgrynhoi gael ei wneud, gan leihau'r costau cyhoeddi wrth wneud hynny.

15.8 Rheithgorau Dwyieithog

Dylid cychwyn dadl ynghylch pa mor ddymunol fyddai newid y gyfraith i ganiatáu rheithgor dwyieithog mewn achos priodol. Mae Mr Ustus Thomas a'r Barnwr Roderick Evans C.F. wedi anfon papur ar y pwnc hwn at yr Arglwydd Ustus Auld sy'n cynnal adolygiad o'r broses droseddol yng Nghymru a Lloegr. Bydd y ddadl yn cael ei datblygu ymhellach mewn seminar sy'n dod ac sydd wedi'i drefnu gan Brifysgol Abertawe i drafod yr iaith Gymraeg yn y broses gyfreithiol yng Nghymru.

15.9 Cyrsiau a Deunyddiau yn Gymraeg

Dylid annog y prifysgolion yng Nghymru i redeg cyrsiau yn Gymraeg ar gyfer myfyrwyr y Gyfraith ar lefel is-raddedigion ac ôl-raddedigion. Byddai cyrsiau o'r fath yn cyflawni dwy swyddogaeth: byddent yn creu cyfreithwyr a fyddai'n gyfarwydd â chysyniadau cyfreithiol a therminoleg yn Gymraeg ac yn creu angen hefyd am faterion cyfreithiol yn Gymraeg y byddai'r colegau eu hunain yn gallu eu cyflenwi. Dylid annog un o adrannau'r gyfraith mewn un o golegau Cymru i ymgymryd â gwaith cyfieithu tebyg i waith yr adran ym Mhrifysgol Moncton.

15.10 Cyfieithwyr

Dylai Gwasanaeth y Llysoedd weithio gyda Chymdeithas Gyfieithwyr Cymru i greu cymhwyster y gellid ei sicrhau drwy arholiad ac a fyddai'n gwneud deiliad y cymhwyster yn gymwys i fod yn gyfieithydd yn Llysoedd Cymru. Mae rhywfaint o waith eisoes wedi'i wneud ar hyn.

Y tymor hir

15.11 Gwnaed argraff fawr ar aelodau o'r ddirprwyaeth gan y system gyfreithiol a deddfwriaethol hollol ddwyieithog sydd wedi'i chreu yn New Brunswick yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Mae'n system sy'n hollol naturiol yn ôl pob golwg ac yn cael ei derbyn gan grwpiau diwylliannol a grwpiau ieithyddol. Mae'n ddigon posibl bod hynny wedi digwydd oherwydd y gofal a gymerwyd i sicrhau bod y system gyfreithiol yn hollol ddwyieithog yn ymarferol a bod y naill grŵp ieithyddol na'r llall yn teimlo o dan fygythiad neu o dan anfantais oherwydd y llall.

15.12 I ba raddau y mae system o'r fath yn nod ymarferol i Gymru? Mae yna wahaniaethau pwysig rhwng Cymru a New Brunswick. Mae gan New Brunswick ei senedd ei hun sy'n gwneud cyfraith sylfaenol ynghyd â system farnwrol sy'n cynnwys Llys Apêl, Llysoedd Mainc y Frenhines a Llysoedd Taleithiol. Mae pob statud a'r gyfraith achosion yn ddwyieithog ac felly mae dyfynnu ffynonnellau ac awdurdodau yn y naill iaith neu'r llall felly yn cael ei hwyluso. Mae'r mwyafrif llethol o gyfreithiau sy'n

gymwysadwy yng Nghymru yn cael eu creu mewn seneddau – yn Llundain neu ym Mrwsel – lle nad yw'r Gymraeg yn iaith swyddogol, ac nid oes gan Gymru ei system farnwrol ei hun. Ac eithrio is-deddfwriaeth sy'n'cael ei phasio gan y Cynulliad mae dyfynnu ffynonellau ac awdurdodau yn Gymraeg yn amhosibl yn ymarferol.

- 15.13 Serch hynny, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau hyn, dylai'r system sydd ohoni yng Nghymru fod yn un sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal yn dilyn ysbryd Deddf yr Iaith Gymraeg ac un nad yw'n atal defnyddio'r naill iaith na'r llall. Os yw'r system bresennol yn sicrhau dwyieithrwydd bydd modd ei addasu'n rhwydd i sicrhau bod dwyieithrwydd yn un o nodweddion unrhyw newid yn y dyfodol i strwythurau deddfwriaethol neu farnwrol yng Nghymru.

Yr Anrh. Mr Ustus Thomas

Winston Roddick C.F.
Y Cwnsler Cyffredinol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ei Anrh. y Barnwr
D.Roderick Evans C.F.
Cofiadur Caerdydd

Nerys Arch

Gwyn Griffiths

Catrin Huws

Mawrth 2001